Hugan Fach Goch

Un tro roedd merch fach o'r enw Hugan Fach Goch yn byw gyda'i mam yn ymyl coedwig fawr.

Un diwrnod rhoddodd mam Hugan Fach Goch fasged o fwyd iddi i fynd i'w nain.

Rhoddodd mam Hugan Fach Goch gacen siocled, banana felen, a brechdan gaws yn y fasged.

Roedd Nain yn byw mewn tŷ bach twt yn y goedwig.

Cerddodd a cherddodd a cherddodd Hugan Fach Goch drwy'r goedwig.

Yn sydyn gwelodd flaidd mawr, barus.

"Pwy wyt ti?" gofynnodd y blaidd.

"Hugan Fach Goch ydw i, pwy wyt ti?" gofynnodd Hugan Fach Goch.

"Mr Blaidd ydw i. Beth sy'n y fasged?" gofynnodd Mr Blaidd.

"Cacen siocled, banana felen a brechdan gaws," atebodd Hugan Fach Goch.

"Ga' i gacen siocled?" gofynnodd Mr Blaidd.

"Na chei wir," atebodd Hugan Fach Goch.

"Ga i fanana felen?" gofynnodd Mr Blaidd.

"Na chei wir," atebodd Hugan Fach Goch.

"Ga i frechdan gaws?" gofynnodd Mr Blaidd.

"Na chei wir," atebodd Hugan Fach Goch. "Yn anffodus mae popeth yn y fasged i Nain."

"Oooo! Twt lol," meddai Mr Blaidd.

Ar ôl hynny aeth Mr Blaidd i ffwrdd yn flin.

Wedyn aeth Hugan Fach Goch i dŷ Nain.

Cnociodd ar y drws ... cnoc, cnoc, cnoc.

"Dewich i mewn," meddai llais.

Felly aeth Hugan Fach Goch i mewn i'r tŷ.

"Helo Hugan Fach Goch," meddai Nain.

"Ooo Nain, mae gen ti lygaid mawr," meddai Hugan Fach Goch.

"Oes siŵr, er mwyn i mi dy weld yn well," meddai Nain.

"Ooo Nain, mae gen ti glustiau mawr," meddai Hugan Fach Goch.

"Oes siŵr, er mwyn i mi dy glywed yn well," meddai Nain.

"Ooo Nain mae gen ti drwyn mawr," meddai Hugan Fach Goch.

"Oes siŵr, er mwyn i mi dy arogli'n well," meddai Nain.

"Ooo Nain, mae gen ti ddannedd mawr," meddai Hugan Fach Goch.

"OES siŵr – i dy fwyta di," meddai Nain.

"Aaaaaaaaaa!" Sgrechiodd Hugan Fach Goch.

Yn ffodus, clywodd y Coediwr Cryf Hugan Fach Goch yn sgrechian a rhedodd i helpu Hugan Fach Goch.

Wedyn rhedodd y blaidd i lawr y ffordd, dros y bont ac i fyny'r mynydd.

Yn y diwedd cafodd Hugan Fach Goch, Nain a'r Coediwr Cryf bicnic blasus iawn – cacen siocled, banana felen a brechdan gaws.